# Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 24 Hydref 2015 yn y Trallwng

**2015.32 Addoli agoriadol a chroeso**

Rydym wedi croesawu 30 o Gyfeillion i'r Cyfarfod hwn fel a restrir ar y daflen bresenoldeb.

Penodwyd y Cyfeillion canlynol gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Gogledd Cymru: | Frances Voelcker, Angela Arnold, Martin Hughes |
| Gororau'r De: | Hilary Beynon |
| De Cymru: | Maryse Newnham |

Ar gyfer Canolbarth Cymru: bydd Bryn Jones a Dorothy Bell yn adrodd

Ein henaduriaid heddiw yw: Angela Arnold a Catherine James

**2015.33 *Calon* a *The Friend***

Mae Efa Wulle wedi cytuno i ysgrifennu am y Cyfarfod hwn i Calon ac mae Martin Morley wedi cytuno i ysgrifennu i The Friend.

**2015.34 Cyfarfod Dioddefiadau:**

Mae Frances Voelcker wedi paratoi adroddiad am sawl Cyfarfod Dioddefiadau a fynychwyd gan Helen Still a hithau. Rydym yn nodi bod Cyfeillion yng Nghymru a Chyfarfodydd Ardal Cymru wrthi'n cymryd rhan yn y gweithgareddau a'r materion y mae'r adroddiad hwn yn eu disgrifio a bydd y ddogfen *Our Faith in the Future* ar gael yn y Gymraeg cyn bo hir.

**2015.35 Adroddiad am Gyngor Cynrychioladol Quaker Life:**

o adroddiad Angela Ormrod rydym wedi cael trosolwg ar benwythnos CCQL ac ar waith cyfredol Quaker Life i gynnal a meithrin cyfarfodydd a pharatoi ar gyfer adolygu *Quaker Faith and Practice* yn y dyfodol. Mae wedi dweud wrthym fod cyd-ddysgu'n digwydd ymhlith y cynrychiolwyr yn y cynulliadau hyn.

**2015.36: Cynhadledd 2015 Pwyllgor Cysylltiadau Cristnogol a Rhyng-ffydd y Crynwyr (PCCRhC)**

Testun heriol y gynhadledd flynyddol a gynhaliwyd yn Friends' House ym mis Medi oedd cymodi rhwng gwahanol grefyddau. Penodwyd Joan Darbyshire o Gwrdd Abertawe i fod yn bresennol ar ein rhan. Rydym wedi derbyn ei hadroddiad a gwahoddir Cyfeillion i gysylltu â hi am ragor o wybodaeth am y diwrnod.

**2015.37 Cyfarfod Ardal Canolbarth Cymru: Prosiect Addysg Heddwch mewn Ysgolion**: paratôdd Helen Porter o Gwrdd Trefaldwyn adroddiad am y Prosiect Addysg Heddwch sy'n fater o bwys i Gyfarfod Ardal Canolbarth Cymru ac sydd bellach yn dechrau ymestyn y tu hwnt iddo. Mae'r prosiect yn cynnig rhaglenni i ysgolion ar gyfer Blynyddoedd 2 tan 7, gan ymdrin â dulliau sylfaenol o ddatrys gwrthdaro, delio â dicter, cydweithredu a chyfryngu gan gymheiriaid. Byddai Helen yn croesawu diddordeb gan wirfoddolwyr. Mae angen penodol am diwtor sy'n medru'r Gymraeg. Dylai Cyfeillion gysylltu â Helen Porter i gynnig eu gwasanaeth.

**2015.38 Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol**

(i) Sioe Frenhinol Cymru: Roedd presenoldeb y Cyfeillion yn y digwyddiad blynyddol hwn yn Llanelwedd yn eithaf tawel eleni oherwydd anawsterau iechyd ac eraill a effeithiodd ar ein cynrychiolwyr Gill Branch a Christine Lewis. Bu Gill Branch yn cysylltu â chydlynydd Cytûn ar gyfer y gwaith eciwmenaidd gan fynychu'r sioe fel roedd yn bosibl. Roedd deunydd y Crynwyr ar ddangos. Noda Gill fod Canolfan Gristnogol y Gymru Wledig bellach yn agored; cyfleuster yw hwn sy'n ategu gwaith y caplaniaid ar faes y Sioe.

(ii) Cafodd presenoldeb y Cyfeillion yn Eisteddfod Genedlaethol 2015 ym Meifod ei gydgysylltu gan Alan a Cynthia Rowland. Mae adroddiad Cynthia yn sôn am siwrnai o ansicrwydd drwy ddarganfod ac ymlaen wedyn at gael y profiad o waith eciwmenaidd yn yr Eisteddfod yn un cadarnhaol iawn. Iddi hi fel rhywun sy'n dysgu'r Gymraeg, roedd hefyd yn her ac yn gyfle i dystio'n bersonol ac yn gyhoeddus i ffydd y Crynwyr mewn gwasanaeth eciwmenaidd. Mae'r adroddiad wedi dangos i ni fod ein presenoldeb blynyddol yn gweithio, diolch i fewnbwn llawer o Gyfeillion; y cydgysylltwyr; ein gwirfoddolwyr o Grynwyr sy'n bresennol yn ystod yr wythnos; Jules Montgomery sy'n darparu adnoddau i'w harddangos a'u dosbarthu a Chyfeillion profiadol sy'n nabod yr Eisteddfod yn dda. Eleni, roedd teithiau cerdded i Ddolobran fel rhan o weithgarwch yr Eisteddfod, rhannu hanes y Cyfeillion yn yr ardal a phrofiad o addoli'r Crynwyr. Rydym yn diolch i Rhian Parry a Catherine James am eu gwaith wrth drefnu hyn.

**2015.39: Gweithdy Gweledigaeth i Gymru:**

Roedd Cofnod 2015.18. [ii] yn gofyn bod Gweithdy'n cael ei drefnu ar 19 Medi i ystyried gweledigaeth bosibl y Crynwyr i Gymru erbyn etholiadau 2016 i'r Cynulliad; ein blaenoriaethau a'n ffocws a ffyrdd y gallent ymgysylltu'n well â phrosesau gwleidyddol. Roedd 23 o bobl, gan gynnwys siaradwyr o CYTÛN a Chyfarfod Cyffredinol yr Alban a thîm ymgysylltu â'r senedd Cyfarfod Blynyddol Prydain yn bresennol mewn gweithdy oedd yn werthfawr ym marn pawb. Rydym wedi derbyn adroddiad am y diwrnod hwnnw gan Deborah Rowlands, sydd wedi'i atodi i'r Cofnodion hyn. Yn y Cyfarfod heddiw, mae Cyfeillion wedi sôn am yr angen i gymryd rhan, am fynd ar-lein ac ymgysylltu. Mae angen i ni dystio i'r gofal gan y gymuned ac am y gymuned sy'n rhan o dreftadaeth Cymru a brwydro drosto. Dylem ymgysylltu â deddfwriaeth 'Cenedlaethau'r Dyfodol'. Bydd y clercod yn gofyn i'r Grŵp Ffocws, a fydd yn cwrdd ar ddechrau mis Tachwedd, i enwebu un o'u plith i ysgrifennu am y broses hon ar gyfer rhifyn nesaf Calon.

**2015.40: Siaradwr: 'Taith i Balesteina feddianedig'**:

Rydym wedi croesawu ein siaradwr Naseer Arafat, pensaer o Nablus. Yn ei sgwrs mae wedi sôn wrthym am raniadau cymhleth a newidiol ei ranbarth ac am sut mae'r meddiant wedi effeithio arno. 'Ein bodolaeth yw'n gwrthsafiad'. Bydded i ni ddysgu o straeon pobl eraill. Bydded i ni weithredu yn eu sgil fel mai cyfiawnder a heddwch fydd drechaf ac na fydd angen gwrthsefyll bellach, oherwydd bod dynoliaeth gyflawn pob un yn cael ei chydnabod.

**2015.41: Materion yr Ymddiriedolwyr a Chyllid:**

Mae Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn awgrymu cyllideb stond ar gyfer 2016 a bod cyfraniad Cyfarfodydd Ardal o £5.25 i bob oedolyn sy'n aelod yn aros yr un fath.

**2015.42: Cymru'n Cofio**

Mae Alan Armstrong yn adrodd bod cyfle, mewn cysylltiad â'r prosiect Cymru dros Heddwch a Chymru'n Cofio, i'r Cyfeillion gynnal Arddangosfa Ffydd a Gweithredu yn 2016 a fydd yn canolbwyntio ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd arddangosfa Ffydd a Gweithredu'r Crynwyr yn

Birmingham wedi gwneud argraff ffafriol ar Fwrdd Cymru'n Cofio a'r gobaith yw ei defnyddio, darparu fersiwn Gymraeg ac ychwanegu paneli sy'n canolbwyntio ar Gymru, gan dynnu sylw hefyd at waith y Cyfeillion ynglŷn â rhyfel a heddwch yng Nghymru hyd heddiw. Rydym yn cefnogi creu'r arddangosfa hon ac yn annog Cyfeillion sydd â gwybodaeth sy'n berthnasol iddi i gysylltu â chydlynwyr cymunedol Gogledd neu Dde Cymru Hannah Huws a Ffion Fielding neu Alan Armstrong o Gwrdd Penarth. Nid oes angen cefnogaeth ariannol gan Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i'r prosiect hwn. Bydd y Cyfarfod yn dosbarthu gwybodaeth am y mater hwn i Gyfarfodydd Ardal a Chyrddau Lleol.

**2015.43: Cofnodion:**

**2015.43 (i) Deiseb Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol:**

Cafodd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ei gynrychioli gan Jane Harries, a defnyddiwyd ei logo ar 30 Medi yng Nghaerdydd pan gyflwynwyd deiseb i'r Senedd, ar y cyd â Chymdeithas y Cymod, CND Cymru, Y Rhwydwaith Cenedlaethol dros Gyfiawnder a Heddwch, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru a sefydliadau eraill, dros greu Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol.

**2015.43 (ii): Darlith Eisteddfod 2016:**

Mae'r grŵp cynllunio darlith yr Eisteddfod (Cofnod 2014.39) yn adrodd bod cais wedi'i wneud a'i gydnabod ar gyfer slot 11 o'r gloch ym Mhabell y Cymdeithasau, ar ddydd Mawrth, dydd Mercher neu ddydd Iau wythnos yr eisteddfod, yn Eisteddfod Genedlaethol 2016, 29 Gorffennaf-6 Awst, yn y Fenni. Bydd Dr Gethin Evans yn traddodi'r ddarlith o dan y teitl *"Galar Gwent": John Edward Southall, Crynwr, Cenedl ac Iaith Garwr.* Crynwr Seisnig o gyhoeddwr-argraffwr oedd John Edward Southall a drigai yng Nghasnewydd ac roedd ei waith yn tystio i gariad at Gymru a'i hiaith.

**2015.43 (iii): Ymgynghoriad llywodraeth San Steffan ar gyfraith Masnachu ar y Sul**:

Rhwng cyfarfodydd, bu Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, drwy Gethin Evans, cynullydd ei Grŵp Ffocws, yn cyflwyno ymateb i ymgynghoriad y llywodraeth ar ddiwygiadau i gyfraith Masnachu ar y Sul. Anfonwyd hwn hefyd i Cytûn i'w helpu i lunio ymateb grwpiau ffydd ac ar gyfer ei gyfarfod ag Adran San Steffan Cymunedau a Llywodraeth Leol. Bu ymateb y Cyfeillion yn sôn am ein safbwynt ar gadw'r Saboth gan argymell, yng Nghymru, mai i'r Cynulliad y dylai penderfyniadau ar y mater gael eu datganoli, nid i awdurdodau lleol.

**2015.43 (iv): Cyfarfod Llandrindod a' Pales**

Mae Crynwyr yng Nghwrdd Llandrindod wedi penderfynu peidio â chwrdd yno bellach a symud i'r Pales, y Tŷ Cwrdd hynaf i'w ddefnyddio'n ddi-dor yng Nghymru. Oherwydd yr angen am waith ailwampio helaeth a drud ar Fwthyn y Pales, mae Cyfarfod Ardal Gororau'r De wrthi'n canfod y ffordd iawn ymlaen o ran defnyddio safle'r Pales. Mae clerc y Cyfarfod Ardal Jeff Beatty wedi mynegi'r gobaith y bydd Cyfeillion o bob cwr o Gymru'n cyfrannu i'r broses ganfod hon. Mae Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wedi dosbarthu gwybodaeth i gyrddau lleol am y 'Cyfarfod Dyrnu' cyntaf a gynhelir heddiw yn y Pales (24 Hydref) ac mae Cyfeillion o Gymru sydd ag arbenigedd penodol mewn pensaernïaeth a threftadaeth wedi cysylltu â chlerc Cyfarfod Ardal Gororau'r De.

**2015.43 (v): Gweinyddiaeth a'r wefan**

Cynhaliwyd cyfarfod yn Aberystwyth 18 Medi i ystyried materion gweinyddiaeth Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a'i wefan. Yn bresennol roedd ei gyd-glercod, dau ymddiriedolwr, ei

drysorydd a thrwy wahoddiad, Deborah Rowlands. Gofynnir i'r Pwyllgor Enwebiadau gael hyd i aelodau i ddau grŵp gorchwyl a gorffen mewn cysylltiad â'r materion hyn.

**2015.44: Enwebiadau a phenodiadau**

**i. Penodiadau a wnaethpwyd rhwng Cyfarfodydd**

- Fel argymhelliad ar gyfer PCCRhC, o 09/2015 hyd at Gyfarfod Blynyddol 2017, mae enw Gethin Evans wedi'i gyflwyno i'r Cyfarfod Dioddefiadau.
- Penodwyd Joan Darbyshire i gynrychioli Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar gyfer cynhadledd PCCRhC ar "Cymodi Rhyng-ffydd".
- I gynrychioli Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yng nghyfarfod grŵp Laser o Swyddogion Eglwysi a Chymdeithasau o Eglwysi sy'n gysylltiedig â Cytûn: David Harries hyd at 31/12/2016.
- I gynrychioli Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wrth gyflwyno deiseb i'r Senedd dros Ddiwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol blynyddol: penodwyd Jane Harries.
- Mewn ymateb i gais gan FWCC ac EMES am rywun o Gymru i helpu i gynllunio digwyddiad undydd yn y DU ac Iwerddon yn 2016, i ailadeiladu cefnogaeth i rwydwaith eglwysi heddwch eciwmenaidd Ewrop, Yr Eglwys a Heddwch: penodwyd Jane Harries.

**ii. Enwebiadau a dderbyniwyd**

- Am Gyd-glerc 01/01/2016-31/12/2018: Efa Wulle.
- Am Ymddiriedolwr i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 01/01/2016-31/12/2018: Frank Brown (y flwyddyn olaf o dair).
- Cyfaill i wasanaethu fel Ymddiriedolwr i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, 01/01/2016-31/12/2018: Peter Davies.
- Cyfaill i wasanaethu yn y Grŵp Adnoddau 01/01/2016–31/12/2018: Ros Morley
- Cyfaill i wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau 01/01/2016-31/12/2018: Joyce Gooding.
- I Bwyllgor Enwebiadau Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru 01/01/2016-31/12/2018, mae'r is-grŵp yn dwyn gerbron enw Judith Hedges.
  A bwrw bod y Cyfeillion hyn yn fodlon gwasanaethu, fe'u penodir.

**iii. Enwebiadau a geisir**

- Cyfaill i wasanaethu ar y Pwyllgor Trefniadau 01/01/2016-31/12/2018.
- Clerc cynorthwyol 01/01/2016–31/12/2016.
- Cyfaill i wasanaethu yn y Grŵp Adnoddau, yn syth a hyd at 31/12/2016, i'w benodi rhwng cyfarfodydd.
- Cyfaill i wasanaethu yn y Grŵp Adnoddau 01/01/2016 hyd at 31/12/2018.
- Cyfaill Ifanc i wasanaethu ar y Grŵp Ffocws (gweler cofnod 2012.46) yn syth a hyd at 31/12/2017. Rydym hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor Enwebiadau awgrymu dyddiadau cyfnodol ar gyfer aelodau presennol y pwyllgor hwn.
- Cyfaill o Gyfarfod Ardal Gororau'r De i wasanaethu yn y Grŵp Ffocws.
- Cyfaill i weithio mewn grŵp gorchwyl a gorffen yn adolygu clerciaeth a gweinyddiaeth Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, hyd at fis Mehefin 2016, i'w benodi rhwng cyfarfodydd.
- Un Cyfaill sy'n medru'r Gymraeg ac un arall sydd â phrofiad o dechnoleg gwefannau i weithio mewn grŵp gorchwyl a gorffen yn adolygu'r wefan, hyd at fis Mehefin 2016, i'w penodi rhwng cyfarfodydd.
  Mewn cyfarfodydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn y dyfodol, bydd enwebeion yn gadael y cyfarfod pan fydd penodiadau'n cael eu trafod a gofynnir i Gyfeillion edrych ar y rhestr enwebiadau ymlaen llaw a sôn am unrhyw bryderon wrth y clercod amser cinio.

**Ros Morley** **cyd-glercod** **Christine Trevett**